Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 27ain o Ebrill 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Dirprwy Faer y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Dywedodd y SCCH Roger Anthony fod rhywun wedi torri i mewn i'r siop fara ar ystâd ddiwydiannol Beechwood a bod dau berson wedi cael eu harestio. Cynhaliwyd mwy o ymarferiadau stopio a chwilio llwyddiannus ar gerbydau, gyda dau berson yn cael eu harestio am fod cocên yn eu meddiant. Arestiwyd person arall yn dilyn aflonyddwch yn George Hill. Yn dilyn achos o fyrgleriaeth ym Maes y Farchnad, arestiwyd un person a chafodd ei ryddhau ar remand. Atafaelwyd fan tri teithiwr yn dilyn achos o ddwyn sgrap a disel coch.

Cof 16 / Ebr / 11 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 23ain o Fawrth 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 13eg o Ebrill 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 13eg o Ebrill 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 17 / Ebr / 11 Doedd dim materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Cof 18/ Ebr / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Pwyllgor Rheoli Dysgu Oedolion a'r Gymuned Ardal Dinefwr.
   Cytunodd y Cyng. Roy Davies a'r Cyng. Edward Thomas i wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.

2. David Rice ynglŷn â gerddi Stryd y Bont. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y tirfeddianwyr i ofyn am eu cydweithrediad wrth gadw'r tir, fel y cytunwyd yn ystod y prosiect gwreiddiol.
3. Simon Martin, Sant Ioan, ynglŷn â chynllun i godi arian i brynu offer. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Mr Martin i ofyn am wybodaeth bellach ac yna byddai'r mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid.
4. Uwchgynhadledd Twristiaeth Sir Gaerfyrddin ar y 10fed o Fai 2011. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Maer yn mynychu'r digwyddiad, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
5. CSG, Cynigion Statudol ar gyfer Trawsnewid ac Ad-drefnu Addysg Uwchradd yn Ardal Dinefwr. Dogfen Ymgynghori. Nodwyd.

Cof 19 / Ebr / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. LlCC, canlyniadau'r Arolwg Cynghorau Cymuned. Nodwyd.
2. Hysbysiad am Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, 25ain o Fehefin 2011. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Clerc yn ateb i ddatgan y byddai'r Cyngor yn arddangos y faner pe byddai un yn cael ei darparu. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 20 / Ebr /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

Ar y Gair (cyfieithu)	£ 139.45
Treuliau'r Clerc (inc ar gyfer y peiriant argraffu, tâl post)	£ 33.11
Eglwys St Teilo (cost llifoleuo)	£ 249.10
Cyflogres CGGC (Ebrill)	£ 24.30

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr eitemau yma'n cael eu pasio i'w talu, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Adroddiad Ariannol Diwedd y Flwyddyn
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei adroddiad diwedd blwyddyn. Yr arbediad mwyaf oedd y gostyngiad yng nghostau cynnal a chadw Neuadd y Sir, o £22,000 yn 2009 i £ 4,000 yn 2010. Dywedodd Mr Plummer, oherwydd bod y Cyngor wedi bod mor bwyllog, ynghyd â'r gwiriadau Chwarterol a gwirio'r Gyllideb, bod cyllideb y Cyngor wedi cael ei monitro'n agos iawn. Roedd pawb o blaid.
3. Materion eraill yn ymwneud â Chyllid
   i) Hysbysiad am Aelodaeth Flynyddol oddi wrth HOWLTA. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins ein bod yn adnewyddu ein haelodaeth am bris o £10. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
   ii) Cytunwyd y byddai £1481, yr arian a oedd yn weddill o gyllideb treuliau'r Maer, yn cael ei drosglwyddo i Gyfrif y Maer.

Cof 21/Ebr /11 I ystyried Ceisiadau Cynllunio E/24435/6 mewn perthynas â'r Hen Farchnad Nwyddau

Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y Swyddog Cynllunio i ofyn am ganiatâd i gynrychiolydd i siarad yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio CSG, pan fydd y mater yn cael ei drafod.
Cytunwyd y byddai'r Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies a'r Cyng. Dawn Wallace yn cwrdd i ffurfioli ymateb y Cyngor yn y cyfarfod.

Cof 22 / Ebr / 11 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei fod wedi cwrdd gyda Mr John McEvoy, Rheolwr Traffig CSG, i drafod rhai newidiadau i'r prif faes parcio, i gynorthwyo siopau ar y brif stryd gyda mynediad i'r cefn. Roedd y Cyng. Julia Jones yn teimlo y dylid darparu mynediad i'r cefn yn y maes parcio i'r siopau hynny ar Stryd Rhosmaen, ble'r oedd y tagfeydd gwaethaf, oherwydd bod y brif Heol mor gul.
Cadarnhaodd y CS Jones y byddai'r Ganolfan Ddydd yn cau. Mae'n debyg bod y nifer o bobl sy'n defnyddio'r cyfleuster wedi gostwng i gyfanswm o 30 yn ystod yr wythnos gyfan. Roedd y Cyngor yn gobeithio y gellid bod darpariaeth ar gael ym Maes Elfryn.

Cof 23 /Ebr /11 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Cof 24 / Ebr / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Cyflwynodd y Swyddog Technegol ei adroddiad i'r Cyngor. Dywedodd y byddai Michael McCauley, Swyddog CSG, yn trefnu i fin ychwanegol i gael ei osod gerllaw'r meinciau ar y Cilgant.
Byddai'r Eglwys yn cael cynnig un o'r meinciau hir yn Neuadd y Sir.
Dywedodd Mr Davies y byddai angen newid tair o'r ffenestri ffrynt mawr yn ystod y flwyddyn nesaf.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod baneri amrywiol wledydd yn cael eu harddangos dros yr haf fel y digwyddodd llynedd, a bod unrhyw faneri sydd wedi treulio yn cael eu hamnewid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 25 / Ebr / 11 Adroddiad y Maer.
Rhoddodd y Dirprwy Faer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd y Maer ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.
Cof 26 / Ebr /11 Adroddiadau Eraill
Is-grŵp Tân Gwyllt
Rhoddodd y Cyng. Fran Murphy adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Ebrill 2011.
Derbyniwyd tri dyfynbris yn y broses dendro i gynnal arddangosfa dân gwyllt yn 2011. Derbyniwyd y dyfynbrisiau oddi wrth:-
Kimbolton
All Seasons Fireworks
Fireworks International.
Argymhellodd yr is-grŵp bod Kimbolton yn derbyn y contract eleni am bris o £3,750 am arddangosfa 20 munud. Byddai'r cwmni'n gyfrifol am warchodaeth yswiriant. Byddai'r cwmni'n hyfforddi Mr Geraint Price ac yna'n ei gyflogi i gynnal yr arddangosfa neu'n darparu pobl gymwys eraill i wneud hynny.
Byddai Mr Des Davies yn caffael dyfynbrisiau am argraffu'r rhaglenni.
Cynigodd y Cyng. Fran Murphy bod y trefniadau yma'n cael eu derbyn gan y Cyngor, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 27/ Ebr /11 Monitro Polisïau'r Cyngor.
Rhoddwyd yr adroddiadau canlynol
i) Polisi Iaith Gymraeg / Dwyieithog gan y Cyng. Julia Jones.
ii) Y Polisi Cyhoeddi gan y Cyng. Fran Murphy. Un sylw a nodwyd oedd y dylai fod yn haws gweld y praesept ar y dogfennau priodol.
iii) Y Polisi Amgylcheddol gan y Cyng. Dawn Wallace.
iv) Y Polisi Cyfleoedd Cyfartal gan y Cyng. Ros Bellamy.

Cof 28 / Ebr /11 Eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cadarnhawyd y byddai'r Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ar nos Wener y 27ain o Fai am 6.45yh yn Neuadd y Sir.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod CCB Ailddechreuedig yn cael ei gynnal ar nos Fercher yr 8fed o Fehefin 2011 am 6.30yh, i'w ddilyn gan Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio am 7.15yh ac yna Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid am 8.00yh. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh.